**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Rhagfyr 2008**

## BREINLEN CYMRU AR GYFER CEFNOGI A DATBLYGU AELODAU: DIWEDDARIAD

**Adroddiad gan Alwen Davies**
**Swyddog Cyswllt Aelodau**

### Diben yr Adroddiad

**1** I roi diweddariad i aelodau ar gynnydd Breinlen Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau.

### Cefndir

**2** Ym mis Mawrth 2008, fe gytunodd yr Awdurdod i arwyddo datganiad o fwriad i ymgeisio am lefel sylfaenol Breinlen Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau – Ymagwedd yr Awdurdodau Tân ac Achub, i'w gyflwyno i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Dyma eiriad y datganiad:
"Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i greu amgylchedd o ddysgu a datblygu er mwyn rhoi'r lefel angenrheidiol o sgiliau a dealltwriaeth i aelodau weithredu'n effeithiol ac effeithlon".

**3** Mae angen i'r Awdurdod ymgymryd ag adolygiad o'i drefniadau busnes fel rhan o'r Freinlen ac asesu anghenion datblygu'r aelodau. Anfonwyd holiaduron i'r holl Aelodau ac mae 15 wedi eu dychwelyd hyd hyn. Er mwyn sicrhau fod digwyddiadau datblygu ddarperir i'r Aelodau yn effeithiol i gwrdd ag anghenion, rhaid i'r Gwasanaeth dderbyn ymatebion gan holl aelodau'r Awdurdod.

4 Mae'r Aelodau wedi ymgymryd â nifer o sesiynau hyfforddi eisoes, gan gynnwys diwrnod sefydlu, cynhadledd datblygu aelodau Cymru gyfan, sesiynau briffio'r Cynllun Lleihau Risg, yn ogystal â sesiynau hyfforddi gynhaliwyd cyn cyfarfodydd yr Awdurdod.

5 Mae'r swyddogion wedi cychwyn casglu portffolio tystiolaeth er mwyn ei gyflwyno i'r Gymdeithas i gefnogi ei gais.

**Gweithgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol**

6 Mae sefydlu Gweithgor yn elfen hanfodol o ymgysylltu gydag Aelodau a hefyd yn darparu tystiolaeth am achrediad o dan Freinlen Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau. Mae agwedd Diogelwch Cymunedol yng nghylch gorchwyl y grŵp yn adlewyrchu rhai Pwyllgor Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

7 Mae'r aelodau canlynol wedi cael ei henwebu ar gyfer y gweithgor a bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn gynnar yn y flwyddyn newydd:
Cyngh J V Owen
Cyngh Trevor Roberts
Cyngh Bill Roberts
Cyngh Terry Evans
Cyngh Sharon Frobisher
Cyngh Brian Dunn

8 Fel rhan o'r grŵp yma, gofyniad pellach o'r Freinlen yw fod "hyrwyddwr" yn cael ei enwebu. Diben y swydd yw cefnogi'r strategaeth a'r rhaglen ddatblygu gysylltiedig â hyrwyddo ymgysylltiad yr holl aelodau yn yr hyfforddiant a'r rhaglen ddatblygu.

## Camau nesaf

**9** Fel gyda'r Awdurdod blaenorol, bydd aelodau o weithgor yr hyrwyddwyr yn cael eu datblygu i ymgymryd ag adolygiad datblygu unigol gydag aelodau eraill o'r cyngor o fewn yr Awdurdod. O'r adolygiadau yma, gellir creu cynllun hyfforddiant a datblygu personol i bob Aelod sy'n adlewyrchu unrhyw anghenion hyfforddiant sy'n cael eu hadnabod.

## Argymhellion

**10** Fod aelodau yn:

**10.1** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd;
**10.2** cefnogi aelodaeth gweithgor yr Hyrwyddwyr;
**10.3** enwebu "hyrwyddwr" i noddi'r strategaeth a'r rhaglen; ac yn
**10.4** cwblhau ac yn dychwelyd y ffurflen adolygiad busnes a'r holiadur hyfforddiant a datblygu i'r Swyddog Cyswllt Aelodau erbyn 31/12/08.